

### DEDDF PRIFFYRDD 1980

CAIS am GANIATÂD i gynnal gwaith **cloddio dros dro / gollwng deunyddiau adeiladu** yn y BRIFFORDD o dan ddarpariaethau Adran 171 Deddf Priffyrdd 1980.

#### ADRAN 1 – MANYLION YR YMGEISYDD

Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd:		Enw a chyfeiriad yr asiant: (Anfonir yr holl ohebiaeth i'r cyfeiriad hwn)	
Rhif ffôn:	Ebost:	Rhif ffôn:	Ebost:

#### ADRAN 2 – LLEOLIAD A DISGRIFIAD O'R GWAITH ARFAETHEDIG

Lleoliad y gwaith:			
Rhif y ffordd:		Cyfeirnod Grid yr OS:	
Y rhannau o'r Briffordd yr effeithir arnynt: Ymyl [ ] Troedffordd [ ] Ffordd Gerbydau [ ] Lôn gefn [ ] (Ticiwch )			
Disgrifiad o'r gwaith arfaethedig:			
Amcangyfrif o hyd y gwaith (pellter):		Dyfnnder ar gyfartaledd (Ticiwch flwch)	
Amcangyfrif o faint fydd y gwaith yn para:		Hyd at 1.5 metr	Dros 1.5 metr
Dyddiad cychwyn arfaethedig:		Dyddiad gorffen arfaethedig:	

#### ADRAN 3 – MANYLION Y SAWL/CONTRACTWR SY'N GWNEUD Y GWAITH

Rhaid i'r sawl sy'n cael trwydded drefnu i'r gwaith gael ei wneud gan berson sy'n meddu ar gymhwyster penodedig 'goruchwyliwr' ac, yn ogystal, rhaid iddo sicrhau bod person sy'n meddu ar gymhwyster penodedig 'gweithiwr' yn bresennol ar y safle drwy'r amser pan fydd gwaith yn mynd rhagddo (**gweler y Nodiadau Esboniadol**).

Enw a chyfeiriad y contractwr:		Enw'r goruchwyliwr:	
		Rhif tystysgrif y ddeddf gwaith stryd:	
		Enw'r gweithiwr:	
Rhif ffôn:	Ebost:	Rhif tystysgrif y ddeddf gwaith stryd:	

**SYLWER: Rhaid** i'r ymgeisydd ddarparu manylion am y Contractwr cyn i unrhyw waith gael ei gyflawni ar y briffordd.

#### ADRAN 4 – INDEMNIO AC YSWIRIO

##### Indemnio

Bydd yr ymgeisydd yn gorfod indemnio'r Awdurdod rhag unrhyw hawliad a wneir mewn perthynas ag anaf, niwed neu golled sy'n deillio o unrhyw waith a wneir gan unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi drwy ganiatâd.

Rhaid i'r indemniad a ddarperir gan y Polisi fod yn werth o leiaf £5,000,000 ar gyfer unrhyw ddamwain unigol neu unrhyw hawliad unigol.

##### Tystysgrif yswiriant

Rwyf i/Rydym ni drwy hyn yn tystio fy mod i/ein bod ni yn meddu ar y polisi isod gyda (Enw'r Cwmni Yswiriant):

\_\_\_\_\_

Rhif Polisi: \_\_\_\_\_ Dyddiad Dod i Ben: \_\_\_\_\_

(Efallai y bydd angen i'r ymgeisydd ddangos prawf o'r yswiriant)

#### ADRAN 5 – CYNLLUNIAU

Rhaid cyflwyno'r cynlluniau canlynol gyda'r cais hwn. *(Ar gyfer gwaith cloddio dros dro yn unig).*

1. Copi o Gynllun y Safle, wrth Raddfa nad yw'n llai na 1/500, sy'n dangos eiddo'r ymgeisydd wedi'i farcio'n Goch ynghyd â'r gwaith arfaethedig.
2. Copi o gynllun y lleoliad wrth raddfa heb fod yn llai na 1/1250 neu 1/2500 neu 1/10,000 sy'n dangos lleoliad y safle mewn perthynas â'r ardal oddi amgylch.

#### ADRAN 6 – DATGANIAD

Cadarnhaf fod y manylion uchod yn gywir ac rwy'n cydnabod bod yn rhaid i'r gwaith y cyfeirir ato uchod gael ei gynnal yn unol â gofynion Deddf Priffyrdd 1980, Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, y Rheoliadau a'r Codau Ymarfer sy'n cyd-fynd â'r ddeddf, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 a deddfwriaeth gysylltiedig, ynghyd ag unrhyw amodau y mae'r Awdurdod Priffyrdd yn eu gosod yn y caniatâd.

Llofnod: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

Dylid dychwelyd y cais i [gofalstrydoedd@sirgar.gov.uk](mailto:gofalstrydoedd@sirgar.gov.uk) neu i'r cyfeiriad post uchod.

Ar ôl i'ch cais gael ei gofnodi, byddwch yn cael rhif cyfeirnod a dewisiadau ar gyfer talu ffi'r drwydded.